

## Yr Eglwys

### Darlleniad: Mathew 16: 13-20

---

---

Ein Tad nefol a sanctaidd, wrth feddwl am dy Eglwys cofiwn eiriau Iesu wrth Seimon Pedr:

‘Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau angau y trechaf arni.’

Mae’r geiriau hyn yn galondid mawr i ni yng nghanol y dirywiad ysbrydol sydd yn ein gwlad. Tristwch mawr i ni, O! Arglwydd, yw’r ffaith nad yw’r ieuenctid yn gweld yr Eglwys yn berthnasol i’w bywyd a bod nifer y ffyddloniaid yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn:

‘Tyred, Ysbryd yr addewid,  
O’r ucheldir pur i lawr,  
Yn dy ddoniau cadwedigol,  
Er aileni tyrfa fawr;’

O! Dduw ein Tad, mae llawer o bobl yn ansicr ynglŷn â’r hyn yw’r eglwys ddelfrydol. Gwyddom nad yw’r Eglwys yn berffaith yr ochr hon i’r nefoedd. Mae ynddi lawer o wendidau a ffaeleddau, ond gallwn weld wrth ddarllen y Beibl yr hyn y dylai hi fod.

O! Arglwydd ein Duw, erfyniwn arnat i roddi dy eneiniad ar bregethu’r efengyl er mwyn i eneidiau gael eu hachub ac i’r saint gael eu hadeiladu yn y ffydd. Cynorthwya ni i sylweddoli mai cyhoeddi dy neges fawr di ydym, a boed inni weld mor bwysig yw i bawb ohonom ddysgu neges dy Air sanctaidd:

‘Boed y gair yn llosgi eto  
Yn anniffodd dan y fron,  
Fel bo angerdd yn y neges,  
A pherswâd yn treiddio hon;  
Wedi’r erfyn  
Boed cymodi â thydi.’

Diolchwn i ti am ein llyfrau emynau sy'n ein galluogi ni i ganu mawl i'th enw a rhannu profiadau dwfn awduron yr emynau. Diolchwn hefyd bod emynau ar gael ar gyfer oedolion, ieuenctid a phlant fel y caiff aelodau'r teulu cyfan gyfle i ddyrchafu eu lleisiau mewn clod a moliant i ti.

Taer erfyniwn am dy fendith ar waith yr Ysgol Sul lle mae oedolion ac ieuenctid a'r plant yn cael cyfle i ddod at ei gilydd i drafod a dysgu dy Air sanctaidd. Dyro dy arweiniad i'r athrawon sy'n paratoi gwersi ar gyfer eu dosbarthiadau er mwyn eu dysgu amdanat ti:

‘Am yr Ysgol rad Sabothol,  
Clod, clod i Dduw!  
Ei buddioldeb sydd anhraethol;  
Clod, clod i Dduw!  
Ynddi cawn yr addysg orau,  
Addysg berffaith Llyfr y llyfrau:  
Am gael hwn yn iaith ein mamau,  
Clod, clod, i Dduw!’

Arglwydd Dduw ein hiachawdwr, clodforwn dy enw mawr am bopeth a wnaethost er ein mwyn yn dy Fab, Iesu Grist. Rydym yn wir ddiolchgar am bob cyfle a gawn i ddod gyda'n gilydd at fwrdd y cymun. Wrth gyfranogi o'r bara, cofiwn am gorff toredig ein Harglwydd Iesu Grist yn dioddef a marw trosom; ac wrth yfed o'r cwpan cofiwn am y gwaed a dywalltwyd er maddeuant pechodau. O! Arglwydd ein Duw, deunw at y bwrdd i amlygu ein ffydd yng Nghrist a'i waith ar y Groes a agorodd y ffordd i bechadur wneud ei gymod gyda thi.

O! Dad sanctaidd, cawn ein disgrifio fel Eglwys fel yr hon a bwrcasodd ef â'i briod waed. Bendithia dystiolaeth dy Eglwys yn y winllan yr wyt ti wedi gweld yn dda i'w gosod fel ei bod yn cyrraedd allan i'r byd o'i chwmpas gyda chenhadaeth Iesu Grist. Gwrando'n gweddi yn ei enw mawr. Amen.

*Brian Wright*